YSGOL BRYNREFAIL

SBOTOLAU AR : Loisi Poisi

CYSTADLEUAETH Y GADAIR 2010

Enillydd y gadair eleni, ac i'w gweld yn eistedd yn hedd ei chadair, yw Loisi Poisi sef Lois Jones, Blwyddyn 13. Cafodd ein gohebydd air gyda hi.

Yn gyntaf Lois, pa bentref ac Ysgol gynradd sy'n dathlu dy lwyddiant?

Wel, dwi'n byw ym mhentref Penisarwaun a chefais fy addysg gynnar yn Ysgol Gymunedol Penisarwaun.

Rwyt ti'n astudio ar gyfer dy lefel A' ar hyn o bryd.

Ydw yn astudio Cymraeg, Saesneg a Hanes ac yn gobeithio mynychu prifysgol i astudio Llenyddiaeth Saesneg ac Astudiaethau Americanaidd.

A beth wnaeth dy ysgogi i ysgrifennu'r stori a'i gosod yng nghyfnod yr ail ryfel byd?

Wel mi gefais fy ysgogi yn rhannol gan deitl y gystadleuaeth ond hefyd wedi astudio'r cyfnod dros y blynyddoedd yn fy ngwersi hanes.

A thu allan o dy fywyd Ysgol ti'n ymddiddori yn ….

Dwi'n hoffi gwrando ar gerddoriaeth, yn hoffi ffilmiau, cymdeithasu a darllen nofelau, yn bennaf nofelau Saesneg, gwaith awduron fel Thomas Hardy, Neil Strauss, Candice Bushnell.

Dyma dy gadair gyntaf, sut deimlad oedd hi i sefyll ar alwad y corn gwlad.

O, coeliwch rown i'n crynu fel deilen, yn ofnus ond yn falch, falch iawn tu mewn.